**CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol 2023 Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Porthyrhyd ar 10/5/2023 am 19.00.**

**1/2023-2024** Presennol.
Cynghorwyr: R Jones, M Rees, R Owen, R Newell, S Herridge, J Williams O.B.E, T Evans.

Y Cyng Sir A Davies.

Clerc.

Cyfieithydd: C Llwyd.

**2/2023-2024** Ethol Cadeirydd ar gyfer 2023 – 2024.
Cynigwyd y Cyng S Herridge gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees. Etholwyd y Cynghorydd S Herridge yn unfrydol yn Gadeirydd.

**3/2023-2024** Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2023-2024.
Cynigwyd y Cyng R Newell gan y Cyng S Herridge ac eiliwyd gan y Cyng M Rees. Etholwyd y Cyng R Newell yn unfrydol yn Is-Gadeirydd.

**4/2023-2024** Y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac aelodau'r cyngor i lofnodi datganiad o dderbyn.
Llofnododd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a holl aelodau'r cyngor y datganiad o dderbyn.

**5/2023-2024** I dderbyn ymddiheuriadau.
Cynghorwyr: Cyng Sir H Jones, M Griffiths, K Waters, R McFarlane.

**6/2023-2024** Derbyn datganiadau o ddiddordeb.
Dim.

**7/2023-2024** Cyfle i'r cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.
Dim.

**8/2023-2024** Derbyn anerchiad y Cadeirydd sy'n ymddeol ac adroddiad ar lwfans dinesig / gwariant cyllideb.
Adroddodd y Cyng R Jones ei fod wedi bod yn anrhydedd ac yn fraint i Gadeirio Cyngor Cymuned Llanddarog am y trydydd tro ers dod yn gynghorydd cymuned. Diolchodd y Cyng R Jones i'r Clerc am ei holl gymorth a gwaith caled yn ystod y flwyddyn. Roedd llawer o bynciau wedi'u trafod a'u datrys gan gynnwys Cofeb Ryfel Porthyrhyd (Parhaus), cyflwyno mainc eistedd i'r cyn Gynghorydd Sir a Chymuned W Evans wrth y fynedfa i Bontfaen a chyflwyno mwg Jiwbilî Platinwm i bob plentyn sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llanddarog. Dywedodd y Cyng R Jones ei fod wedi mynychu digwyddiadau o fewn y gymuned a oedd yn cynnwys cyfarfod â Dr Lucy Sutherland, cyfarwyddwr newydd GFGC a'r digwyddiad goleuo yn GFGC. Cafwyd rhai adegau heriol yn ystod y flwyddyn hefyd gan gynnwys cyfarfod cyhoeddus a 2

ymgynghoriad ynglŷn â'r datblygiad posibl ar Fferm Wern Fraith. Adlewyrchodd y Cyng R Jones ei dristwch ar ôl marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II ar 08/09/2022. Diolchodd y Cyng R Jones i holl aelodau'r cyngor am eu cefnogaeth a'u cymorth a dymunodd y gorau i'r Cynghorydd S Herridge yn ei rôl fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanddarog.
Mynegodd y Cyng R Jones ei gydymdeimlad personol ac oddi-wrth y Cyngor i'r Cyng R Owen ar farwolaeth ei fam.

**Rhoddion Lwfans Dinesig**

Dywedodd y Cyng R Jones nad oedd unrhyw arian wedi'i wario o'i lwfans dinesig gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r rhai sy'n derbyn y Gwobrau Cymunedol.

**9/2023-2024** Adolygu polisïau'r Cyngor a chadarnhau llofnodwyr siec ar y mandad banc.

Dywedodd y Clerc ei fod wedi gofyn am y polisïau diweddaraf gan Un Llais Cymru a bydd yn eu llwytho i fyny i'r wefan cyn gynted â phosibl. Mae polisïau cyfredol ar gael ar wefan Cyngor Cymuned Llanddarog.
Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor mai'r llofnodwyr presennol ar y cyfrif oedd y Cyng R Jones, y Cyng J Williams O.B.E ac yntau. Mae bancio ar-lein yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

**10/2023-2024** Penodi is-bwyllgor sefydlog cyffredinol a chylch gorchwyl y cyngor.

Penderfynwyd y byddai'r is-bwyllgor yn cynnwys y Cadeirydd Llywyddol, yr Is-Gadeirydd, y Cadeirydd Blaenorol a un aelod o'r cyngor o'r plwyf perthnasol:
**Llanddarog -** Cyng T Evans, Cyng M Rees.
**Porthyrhyd -** Cyng J Williams O.B.E, Cyng M Griffiths, Cyng R McFarlane.
**Mynyddcerrig -** Cyng R Owen, Cyng R Newell, Cyng K Waters.

Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**11/2023-2024** Apwyntiadau.

Penderfynwyd fel a ganlyn:
a) **Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru** – Cyng M Rees a Cyng R Jones (Presenoldeb os oes angen).
b) **Fforwm Cyswllt Cynghorau Cymuned a Thref Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cyng S Herridge a Cyng R Jones.
c) **Fforwm Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cyng J Williams O.B.E a Cyng S Herridge.
d) **Fforwm Chwarel Torcoed** – Cyng R Owen a Cyng R Newell.

**12/2023-2024** Penodi cynrychiolydd cymunedol ar gorff llywodraethu Ysgol Llanddarog.

Cadarnhaodd y Cyng J Williams O.B.E fod y Cynghorydd Sir H Jones i aros fel cynrychiolydd Cyngor Cymuned Llanddarog ar Gorff Llywodraethu Ysgol Llanddarog am y tymor llawn o 4 blynedd. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**13/2023-2024** Mr LM Jones - Archwiliwr Mewnol ar gyfer cyfrifon 2023-2024.

Adroddodd y Clerc ei fod wedi siarad gyda Mr LM Jones a'i fod yn hapus i barhau fel Archwiliwr Mewnol Cyngor Cymuned Llanddarog. Cytunodd Aelodau'r Cyngor i wahodd Mr LM Jones fel archwiliwr cyfrifon mewnol. Cynigwyd gan y Cyng Sir R

Jones ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge. **Penderfynwyd** i'r Clerc ysgrifennu llythyr gwahoddiad at Mr LM Jones.

**14/2023-2024** Cadarnhad o'r Clerc fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol am 2023-2024.
**Penderfynwyd** cadarnhau y Clerc. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**15/2023-2024** Cadarnhad Arholwr Ariannol Mewnol ar gyfer 2023-2024.
**Penderfynwyd** cadarnhau Cyng R Jones. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng R Owen.

**16/2023-2024** Cadeirydd Lwfans dinesig/swm cyllideb ar gyfer 2023-2024.
**Penderfynwyd** bod y swm yn £500 (Adran 137). Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.
**Penderfynwyd** bod y swm yn £300 (Lwfans Dinesig). Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**17/2023-2024** Dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfodydd.
Awgrymodd y Cyng J Williams O.B.E y dylid cynnal pob cyfarfod o fewn neuaddau pentref/clwb y gymuned. Penderfynwyd cynnal y cyfarfodydd ar ail ddydd Mercher y mis am 19.00pm (ac eithrio mis Awst). Bydd cyfarfodydd yn cychwyn yn unol â'r tabl isod.

**ATODLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR 2023-2024**

| | |
|---|---|
| **Mehefin 2023** | **Clwb Mynyddcerrig** |
| **Gorffennaf 2023** | **Neuadd Bentref Llanddarog** |
| **Medi 2023** | **Neuadd Bentref Porth-y-rhyd** |
| **Hydref 2023** | **Clwb Mynyddcerrig** |
| **Tachwedd 2023** | **Neuadd Bentref Llanddarog** |
| **Rhagfyr 2023** | **Neuadd Bentref Porth-y-rhyd** |
| **Ionawr 2024** | **Clwb Mynyddcerrig** |
| **Chwefror 2024** | **Neuadd Bentref Llanddarog** |
| **Mawrth 2024** | **Neuadd Bentref Porth-y-rhyd** |
| **Ebrill 2024** | **Clwb Mynyddcerrig** |
| **Mai 2024 (gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)** | **Neuadd Bentref Llanddarog** |

***Gellir galw cyfarfodydd eraill yn ystod y flwyddyn yn ôl yr angen***

Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**18/2023-2024** Ystyried cyfethol aelodau ychwanegol.
Cyngor llawn yn bresennol ar hyn o bryd.

**19/2023-2024** Hyfforddiant ar y cod ymddygiad a threfniadau ar gyfer unrhyw daliadau i'r Aelodau.
a. Eglurodd y Clerc ei bod yn ofynnol i holl aelodau'r Cyngor fynychu cwrs hyfforddiant Côd Ymddygiad bob 5 mlynedd. **Penderfynwyd** i'r Clerc gael

gwybodaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Un Llais Cymru ynglŷn â'r cwrs ac adrodd i aelodau'r cyngor maes o law.
Mae'r cynghorwyr canlynol angen hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad - Cyng K Waters, Cyng R Jones, Cyng T Evans a Cyng R Newell.

b. **Penderfynwyd** gwneud unrhyw daliadau o £156.00 i Aelodau yng nghyfnod treth TWE 12 y flwyddyn ariannol hon. Os bydd aelod yn gadael y Cyngor cyn i'r data cyflogres gael ei anfon at yr asiant am gyfnod 12 yna ni fydd yn derbyn y taliad. Gofynnodd y Clerc i aelodau'r cyngor gadarnhau eu sefyllfa yn ysgrifenedig drwy lofnodi'r ddogfen lwfans aelodau a ddarparwyd yn nodi a ydynt yn hawlio'r £156.00. Penderfynwyd - Cwblhaodd holl aelodau'r cyngor oedd yn bresennol y ffurflen lwfans aelodau a'i dychwelyd at y Clerc.

**20/2023-2024** Nodi presenoldeb aelodau'r cyngor.
Adroddodd y Clerc y canlynol.

| **Enw** | **Nifer y Cyfarfodydd** | **Cyfarfodydd a Fynychwyd** | **Presenoldeb %** | **Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|---|---|---|
| Cyng R Jones | 13 | 13 | 100 | 1 |
| Cyng S Herridge | 13 | 11 | 85 | 0 |
| Cynghorydd Sir H Jones | 13 | 4 | 31 | 0 |
| Cyng J Williams OBE | 13 | 9 | 70 | 2 |
| Cyng M Rees | 13 | 9 | 70 | 0 |
| Cyng R Owen | 13 | 9 | 70 | 0 |
| Cyng R Newell | 13 | 9 | 70 | 0 |
| Cyng T Evans | 13 | 5 | 39 | 0 |
| Cyng K Waters | 13 | 10 | 77 | 0 |
| Cyng R McFarlane | 13 | 5 | 39 | 0 |
| Cyng M Griffiths | 13 | 5 | 39 | 0 |

**21/2022-2023** Daeth y cyfarfod i ben am 19.28.

Cadeirydd

______________________

Dyddiad

______________________

**CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Mai 2023 o Gyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Porthyrhyd ar 10/5/2023 am 19.00 (Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol).**

**22/2023-2024** Presennol.
Cynghorwyr: R Jones, M Rees, R Owen, R Newell, S Herridge, J Williams O.B.E, T Evans.
Cyng Sir A Davies.

Clerc.

Cyfieithydd: C Llwyd.

**23/2023-2024** I dderbyn ymddiheuriadau.
Cynghorwyr: Cyng Sir H Jones, M Griffiths, K Waters, R McFarlane.

**24/2023-2024** Derbyn datganiadau o ddiddordeb.
Cyng R Jones - **36/2023-2024** Cadarnhau grant refeniw blynyddol i Neuadd Bentref Porth-y-rhyd.
Cyng T Evans – **38/2023-2024** Cadarnhau nawdd blynyddol i Sioe Llanddarog.

**25/2023-2024** Cyfle i'r cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.
Daeth dau aelod o'r gymuned i'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r cyngor ynghylch ymgynghoriad Fferm Wern Fraith. Nodwyd bod mwy na 165 o wrthwynebiadau wedi'u cyflwyno i Evans Banks Planning Ltd cyn diwedd yr ymgynghoriad ac e-bostiwyd nifer o wrthwynebiadau eraill. Gofynnodd yr aelodau cymuned a oedd modd cael copi o lythyr y cynghorau cymuned mewn ymateb i'r datblygiad posib. **Penderfynwyd** i'r Clerc e-bostio copi.
Gofynnodd yr aelodau cymuned a oedd modd cael copi o lythyr y cynghorau cymuned mewn ymateb i ymgynghoriad y CDLl. Ymatebodd y Cynghorydd Sir A Davies drwy adrodd bod yr ymateb yn ymwneud ag anheddau menter wledig yn unig. **Penderfynwyd** i'r Clerc e-bostio copi.
Gofynnwyd cwestiynau ynghylch maint y traffig a cherbydau goryrru yn y gymuned. Atebodd y Clerc bod Gan Ddiogel yn mynd ati i blismona'r ardal a'u bod i'w gweld yn aml y tu allan i Ysgol Llanddarog ac ar gyrion Porthyrhyd. Hefyd, cafodd y cynllun 20mya newydd ar gyfer y gymuned ei arddangos ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.
Mynegwyd pryderon ynghylch y cynnydd yn nifer y lorïau oedd yn teithio ar hyd Heol Crwbin a rhannau eraill o'r gymuned. Dywedodd y Clerc mai'r rheswm am y cynnydd mewn cyfaint oedd y gwaith ffordd osgoi newydd yn Sir Benfro ac y byddai'n parhau yn y dyfodol agos. Roedd cwyn wedi'i chofnodi gyda Chwarel Torcoed a chafwyd ymateb.
Gofynnwyd sut y gallai'r gymuned gynorthwyo gyda chodi sbwriel. Ymatebodd y Cynghorydd Sir A Davies trwy hysbysu aelodau'r gymuned bod offer codi sbwriel, bagiau sbwriel coch a festiau hi-viz ar gael gan Gyngor Sir Caerfyrddin.
Codwyd pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol y tu allan i'r tafarndai ym Mhorthyrhyd. Cynghorodd aelodau'r Cyngor aelodau'r gymuned i gysylltu â'r Heddlu ac adran drwyddedu Cyngor Sir Caerfyrddin.

Gadawodd y cyhoedd y cyfarfod am 19.51, i beidio â dychwelyd.

**26/2023-2024** Materion Plismona a Diogelwch Ffyrdd.

Adroddodd y Cyng M Rees fod car wedi ei adael yn y gilfan gyferbyn â Neuadd Bentref Llanddarog ar ôl iddo fynd ar dân a gofynnodd i'r Clerc drefnu i'w gasglu.
Dywedodd y Cyng T Evans fod cerbyd adfer wedi mynychu'r lleoliad i nôl y car ond nid oedd yn gallu symud y cerbyd i'r trelar.
Dywedodd y Clerc y dylai'r car gael ei nôl gan y cwmni yswiriant ond os bydd y cerbyd yn aros yn ei le am 14 diwrnod arall, bydd yn adrodd i Gyngor Sir Caerfyrddin. **Penderfynwyd** nodi.

**27/2023-2024** Materion y Cyngor Sir - Cynghorydd Sir A Davies.

Dywedodd y Cynghorydd Sir A Davies fod blwyddyn wedi mynd heibio ers iddi gael ei hail-ethol i gynrychioli Cyngor Cymuned Llanddarog ar y Cyngor Sir ac mae'n anrhydedd ac yn bleser cyflawni'r rôl ers dros 6 mlynedd.
Mae'r dyletswyddau'n amrywiol ac yn cynnwys gwaith a chymorth cymdeithasol, addysg, priffyrdd a'r tyllau yn y ffordd. Yn ddiweddar mae cyflymder y traffig ac yn enwedig y lorïau o'r chwarel yn achosi problemau ar hyd Is y Llan ond hefyd ar lonydd gwledig sy'n ymuno â chefn GFGC a Llanarthne.
O ran cyfrifoldebau'r Cabinet, mae materion cynllunio a'r targed ffosffad yn afon Tywi wedi cymryd llawer iawn o amser. Ar hyn o bryd dim ond afonydd yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n cael eu heffeithio, ond bydd afonydd llai fel y Gwendraeth Fach yn cael eu cynnwys yn y cynllun yn fuan. Mae Sir Gaerfyrddin wedi arwain y ffordd ar y pwnc hwn ac wedi datblygu cyfrifiannell i gynorthwyo contractwyr adeiladu i werthuso faint o ffosffad sy'n cael ei ryddhau i'r system ddŵr a 'lliniaru' i gael system a fydd yn 'amsugno' ffosffad. Mae'r ddau wedi'u cwblhau ac mae'r Cyngor Sir yn aros i CNC roi caniatâd i fwrw ymlaen â'r ddau.
Mater arall sydd wedi cymryd llawer o amser yw prosiect Green Gen Tywi Wysg. Mae'r ymgynghoriad anffurfiol wedi dod i ben, ac rydym yn awr yn aros am ymateb.
Mae'r CDLl hefyd wedi cymryd llawer o amser ac mae'r ymgynghoriad hwn hefyd wedi dod i ben.
Cyn yr uchod treuliwyd amser ar system fwyd Sir Gaerfyrddin a sut y defnyddir mwy o fwyd a gynhyrchir yn lleol yn y sir. Mae'n bwysig darparu maeth a daioni i'n henoed a'n plant o fewn cartrefi preswyl a'n hysgolion. Y gobaith yw y bydd cynllun arloesol yn cael ei wireddu a'i ddefnyddio'n fuan ar dir un o ffermydd y Sir.
Wrth edrych ymlaen, mae'r 20mya ar fin digwydd ym mhob un o'n pentrefi gyda'r gwaith eisoes wedi'i gwblhau yn Llanddarog a Phorthyrhyd. Does dim gwaith wedi cychwyn yn Llanarthne, Penrhiwgoch, Mynyddcerrig na Chapel Dewi eto, ond o leiaf bydd arwyddion newydd yn cael eu gosod yn y pentrefi hyn.
Manteisiodd y Cynghorydd Sir A Davies ar y cyfle i ddiolch i'r Cadeirydd a'r Clerc am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd ei bod wedi mwynhau gweithio gyda'r cyngor cymuned a'i bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cadeirydd newydd yn y flwyddyn i ddod.

**28/2023-2024** Adroddiad y Cadeirydd.

Mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad o gael ei hethol yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddarog am 2023-2024 a'i bod yn anrhydedd cynrychioli'r gymuned. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd R Jones am ei wasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf a diolchodd i holl aelodau'r cyngor am eu cefnogaeth. Diolchodd y

Cadeirydd hefyd i'r Cynghorydd Sir A Davies am ei gwaith diwyd a mynegodd ei diolch i Catrin Llwyd a'r Clerc am eu hymdrechion parhaus.

**29/2023-2024** Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 12/04/2023.
**Penderfynwyd** cadarnhau cofnodion 12/04/2023. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng J Williams O.B.E.

**30/2023-2024** Materion yn codi o'r cofnodion uchod.
Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor fod yr holl faterion i'w datrys wedi eu gweithredu ac os derbyniwyd gohebiaeth, roedd copi o'r E-bost wedi ei anfon at bob aelod er gwybodaeth.

**31/2023-2024** I nodi gohebiaeth neu i restru i'w hystyried mewn cyfarfod o'r cyngor sydd i ddod.
(Mae'r holl ohebiaeth berthnasol yn cael ei e-bostio at aelodau'r cyngor ar yr adeg y'i derbynnir a dim ond yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod os oes angen neu os gwneir cais penodol gan yr aelodau neu'r Clerc).
Derbyniwyd yr e-bost canlynol ar 24/04/2023 a'i anfon ymlaen at holl aelodau'r cyngor -
"Hoffwn dynnu sylw at fy mhryderon ynghylch y defnydd parhaus o Lorïau Chwarel yn teithio ar hyd Is-Y-Llan (o dafarn y White Hart i Gwmisfael ac oddi yno). Rydym wedi sylwi ar y defnydd a'r cynnydd yn nifer y lorïau sy'n defnyddio Is-Y-Lan fel llwybr trwodd. Rwy'n deall bod y Lorïau hyn yn cael mynediad i Waith Asphalt Tarmac Torcoed, ychydig filltiroedd i ffwrdd o'n cyfeiriad cartref. Tybiaf fod y Gwaith hwn yn darparu cyflogaeth a refeniw yn yr ardal leol, felly dywedaf o'r cychwyn cyntaf nad yw fy mhryderon i'n achosi unrhyw darfu ar waith y Gwaith. Fodd bynnag, gall y pryderon a godaf fod o gymorth i greu amgylchedd gweithio/byw gwell ar gyfer ein hardal leol".
Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor fod Chwarel Torcoed wedi cael gwybod am y pryderon a bod llythyr o ymateb wedi ei dderbyn ar 09/05/2023 ac wedi ei e-bostio at yr aelod cymunedol. Mae Gan Ddiogel hefyd yn weithgar yn y gymuned. **Penderfynwyd** nodi.

Derbyniwyd yr e-bost canlynol ar 26/04/2023 a'i anfon ymlaen at holl aelodau'r cyngor -
E-bost yn unig yw hwn i roi gwybod i chi y bydd Swyddfa Bost a Siop Llanddarog ar gau ym mis Medi oni bai y gallwn ddod o hyd i rywun sydd am gymryd rhan. Mae hyn yn peri tristwch i ni'n dau gan fod y siop yno ers blynyddoedd lawer.
Os oes unrhyw ddiddordeb gan y gymuned mewn cadw Swyddfa Bost Llanddarog ar agor fel siop gymunedol, byddem yn croesawu'r diddordeb hwnnw, gan fod gan Dryslwyn a Brechfa siopau cymunedol ffyniannus efallai y byddai hyn yn opsiwn i Landdarog.
Mae Mr a Mrs Williams wedi bod yn weithgar iawn yn y gymuned, yn enwedig yn ystod y cyfnod cloi, a gwyddom fod y gymuned yn ddiolchgar iawn, efallai na fyddent am ei gweld yn cau. Rydym yn gobeithio y bydd yn dal i fod yn Swyddfa Bost a siop yn y dyfodol ac rydym yn weithgar wrth geisio dod o hyd i rywun".
Trafodwyd yr e-bost gan holl aelodau'r cyngor ac adroddodd y Cyng R Jones ei fod dan yr argraff bod gan rywun ddiddordeb mewn prynu'r busnes. Gofynnodd y Cyng J Williams O.B.E a oedd unrhyw gymorth ar gael i'r darpar brynwyr?

Atebodd y Cynghorydd Sir A Davies fod y SPF (Cronfa Ffyniant Gyffredin) ar gael i gefnogi mentrau busnes. **Penderfynwyd** nodi.

Derbyniwyd yr e-bost canlynol ar 08/05/2023 a'i anfon ymlaen at holl aelodau'r cyngor -
"Roeddwn yn siomedig iawn i ddeall, am y tro cyntaf y bu dathliad Brenhinol, nad yw'r Cyngor Cymuned yn cyflwyno anrheg coffaol i blant y Gymuned hon.
"Rwy'n cofio bod yn ddisgybl yn Ysgol Eglwys Llanddarog yn ystod y coroni yn y gorffennol yn 1953, pan oedd y cynghorwyr i gyd yn allweddol i sicrhau bod gan y disgyblion deledu yn yr ysgol i wylio'r achlysur, a chyflwynwyd mygiau'r Coroni i ni i gyd, ac rwy'n dal i wneud hynny. meddu, gan ei fod yn rhan bwysig o hanes.
Ar bob achlysur Brenhinol ers y coroni, mae Cyngor Plwyf/Cymuned Llanddarog bob amser wedi cyflwyno rhoddion i'r plant yn yr Ysgolion o fewn y Gymuned.
Ni fydd gan ddisgyblion presennol Ysgol Llanddarog ddim i goffau Coroni'r Brenin Siarl III, gydag ef wedi ymweld â'n pentref yn 2003 pan enillodd Llanddarog Bentref Calor y Flwyddyn. Sylwch fod yr ymweliad wedi ei gydlynu gan Gyngor Cymuned Llanddarog.
Gobeithiaf felly y byddwch yn ailystyried eich penderfyniad gan nad yw'n rhy hwyr iddynt dderbyn anrheg coroni".
Trafodwyd yr e-bost gan aelodau'r cyngor, a phenderfynwyd er nad oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb i'r Clerc gael dyfynbrisiau ar gyfer mygiau Tsieina a mygiau Caergrawnt. **Penderfynwyd** i'r Clerc gael dyfynbrisiau.

**32/2023-2024** Cynllunio.
Dim.

**33/2023-2024** Taliadau.
Ardystiwyd y taliadau isod yn nghyfarfod misol Ebrill, a chadarnhawyd hwynt yn mis Mai. Copïau o anfonebau a anfonwyd at bob aelod yn electronig cyn talu am awdurdodiad. Cynigwyd gan y Cyng M Rees ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge.

| Dull Talu | Dyddiad | Cyflenwyr a Manylion | Swm £ gan gynnwys TAW |
|---|---|---|---|
| Ar-lein | 24/04/2023 | HMRC – Cyfnod 1 | 94.20 |
| Ar-lein | 24/04/2023 | JG Evans – Cyflogres Ebrill | 360.42 |
| Ar-lein | 24/04/2023 | Catrin Llwyd – CCLL18 | 159.60 |
| Ar-lein | 24/04/2023 | Neuadd Bentref Llanddarog – Anfoneb 51 | 36.00 |
| Ar-lein | 24/04/2023 | Gwasanaethau Coed Dynefor - 001 | 300.00 |
| Ar-lein | 27/04/2023 | Nest | 33.82 |

**34/2023-2024** Derbyniadau.
Cyngor Sir Caerfyrddin – Praesept 1.
28/04/2023 - £6454.63.

**35/2023-2024** Cadarnhau grant refeniw blynyddol i Neuadd Bentref Llanddarog.
Cynigiwyd grant refeniw blynyddol o £550.00 gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng T Evans. Pawb wedi cytuno.

Gadawodd y Cyng R Jones y cyfarfod ar gyfer yr eitem nesaf ar yr agenda.

**36/2023-2024** Cadarnhau grant refeniw blynyddol i Neuadd Bentref Porthyrhyd.
Cynigiodd y Cyng M Rees grant refeniw blynyddol o £550.00 ac eiliwyd gan y Cyng T Evans. Pawb wedi cytuno.

Ailymunodd y Cyng R Jones â'r cyfarfod.

**37/2023-2024** Cadarnhau grant refeniw blynyddol i Glwb Mynyddcerrig.
Cynigiwyd grant refeniw blynyddol o £550.00 gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng T Evans. Pawb wedi cytuno.

**38/2023-2024** Cadarnhau nawdd blynyddol i Sioe Llanddarog.
Cynigodd y Cyng. J Williams O.B.E gynnydd or nawdd blynyddol i £250.00 ac eiliwyd gan y Cyng R Newell. Pawb wedi cytuno.

**39/2023-2024** Cadarnhau adnewyddu Polisi Yswiriant Cyngor Cymuned.
Derbyniwyd dyfynbrisiau gan BHIB a Zurich Insurance a'u hanfon at holl aelodau'r cyngor cyn y cyfarfod. Trafodwyd y ddau ddyfynbris ac awgrymwyd bod Cyngor Cymuned Llanddarog yn cychwyn polisi gyda Zurich Insurance am gyfnod o 3 blynedd oherwydd y pris cystadleuol heb golli gwasanaethau.
Cynigodd y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng R Jones i gychwyn y polisi 3 blynedd gyda Zurich Insurance am y swm o £589.98. **Penderfynwyd** i'r Clerc drefnu taliad.

**40/2023-2024** Derbyn diweddariad ar garreg goffa Porth-y-rhyd.
Adroddodd y Cyng J Williams O.B.E ei fod mewn cysylltiad â Menshed i baratoi'r tir ar gyfer y slab concrit.

**41/2023-2024** I drafod darparwr gwasanaethau cyfieithu ar gyfer 2023-2024.
Awgrymodd y Cyng J Williams O.B.E a'r Cyng R Newell fod Ms Catrin Llwyd yn parhau fel cyfieithydd ar gyfer 2023 – 2024. Cytunodd holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** i'r Clerc hysbysu Ms Catrin Llwyd drwy e-bost.

**42/2023-2024** Fforwm er mwyn i Aelodau godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd.
Dywedodd y Cyng M Rees ei bod wedi cael gwybod gan y postmon lleol fod ei ardal/llwybr wedi'i newid a bod 40 o gartrefi ychwanegol wedi'u cynnwys a bod yn rhaid eu gwasanaethu o fewn yr un faint o amser. Pe bai amser yn brin, dim ond parseli fyddai'n cael eu dosbarthu. **Penderfynwyd** i'r Cyngor Cymuned gysylltu â'r Post Brenhinol.
Adroddodd y Cyng M Rees ei phryderon ynghylch nifer y cwynion a dderbyniwyd am Adam Price (AC).
Dywedodd y Cyng M Rees fod angen trwsio'r ciosg ffôn ym Mhorthyrhyd gan ei fod mewn ardal gadwraeth. **Penderfynwyd** i'r Clerc fformatio llythyr i BT ac i'r Cyng M Rees ei brawfddarllen cyn ei gyflwyno.
Dywedodd y Cyng M Rees fod y cynlluniau newydd ar gyfer Neuadd Bentref Llanddarog yn cael eu harddangos a holodd a oedd unrhyw arian ar gael i gynorthwyo'r datblygiad.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir A Davies i'r Clerc gysylltu â'r Biwro Cymunedol a CAVS i sefydlu a oedd cymorth ar gael. **Penderfynwyd** i'r Clerc gysylltu â'r adrannau perthnasol.
Gofynnodd y Cyng R Jones a oedd Cyngor Cymuned Llanddarog yn bwriadu addurno'r gymuned i helpu i ddathlu Eisteddfod yr Urdd. Trafododd aelodau'r Cyngor y mater a phenderfynwyd oherwydd bod Cyngor Cymuned Llanddarog wedi cyfrannu £500.00 yn 2022-2023 a bod Ysgol Llanddarog wedi addurno tu allan i'r ysgol nad oedd angen addurno'r gymuned ymhellach ond bod croeso i unigolion o fewn y pentrefi ddathlu'r achlysur. **Penderfynwyd** nodi.

**43/2023-2024 Mewn camera 20.55.**
Gadawodd y rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor Cymuned neu'r Clerc y cyfarfod – i beidio â dychwelyd. Mae'r gwaharddiad oherwydd bod materion personél / staffio yn cael eu trafod.

**44/2023-2024** Rhedeg cyflog staff Mai 2023.
Adroddodd y Clerc symiau'r gyflogres ar lafar i holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a chadarnhau taliad y symiau a gyflwynwyd. Cynigwyd gan y Cyng S Herridge ac eiliwyd gan y Cyng R Jones.

**45/2023-2024** Daeth y cyfarfod i ben am 21.05.

Cadeirydd

_____________________

Dyddiad

_________________